



Ein cyf /Our ref MA(P)/LA/0714/16

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid,  
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid,  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2 Mawrth 2016

Annwyl bawb,

### **Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol 2016-17**

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi manylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17 i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru trwy Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet. Amgaeaf y datganiad er gwybodaeth ichi.

Mae manylion llawn y Setliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r manylion yr wyf yn eu darparu ar y Grantiau Refeniw a Chyfalaf sydd i'w darparu i Lywodraeth Leol yn rhoi ichi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i gadarnhau'ch Cyllidebau a lefelau'r Dreth Gyngor am 2016-17.

Rwyf wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Setliad Dros Dro yn ofalus cyn penderfynu ar y Setliad Terfynol. Ni nododd yr ymatebion unrhyw faterion sy'n gofyn am newid yn y ffordd yr ymdrinnir â'r Setliad Terfynol.

O ganlyniad, nid yw'r Setliad Terfynol wedi newid ers y Diweddariad i'r Setliad Dros Dro a gyhoeddais ar 10 Chwefror.

O fewn y Setliad, mae arian refeniw heb ei neilltuo ar gyfer 2016-17 yn dod i **£4.102 biliwn** – rhywfaint yn uwch na'r swm a gyhoeddais ym mis Rhagfyr. Mae'r cyllid a gyhoeddwyd heddiw yn ostyngiad o 1.3% (£54 miliwn) ers 2015-16, ar ôl ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r Setliad.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi ar ein gwefan y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau grantiau refeniw a chyfalaf i Awdurdodau Lleol ar gyfer 2016-17. Mae hyn yn rhoi darlun manwl o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i Lywodraeth Leol.

Byddaf yn symud ymlaen yn awr i osod *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1* yn 2016-17 i'w drafod yn y Cynulliad ar 9 Mawrth 2016.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Leighton Andrews". The signature is written in a cursive style. Below the signature is a long, thin horizontal line that tapers to an arrowhead on the right side.

**Leighton Andrews AC / AM**  
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus  
Minister for Public Services